

GMS*Cymru
Prosiect sy'n mesur llanw a thrai gwyfynod yr ardd

Pwrpas GMS Cymru yw ceisio darganfod beth yn union sydd yn digwydd i wyfynod cyffredin ein gerddi. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad safonol "*The State of Britain's Larger Moths*" sydd yn datgan bod llawer o wyfynod cyffredin wedi prinhau dros y 35 mlynedd diwethaf dros Brydain. (Ewch i'r ddolen hon os am wybod mwy:

http://www.butterfly-conservation.org/text/39/the_state_of_britains_moths.html). Mae'n amlwg ei fod yn dra phwysig gwybod a ydy'r lleihad hwn yn parhau, ac ymhle y mae'n digwydd fwyaf.

System fonitro yn hytrach na'n system recordio fel y cyfryw yw GMS. Amcan y prosiect yw cydgorio ymdrechion y cyfrannwyr er mwyn casglu data safonol o'r cofnodion fel y bydd rhain o ddefnydd yn y dyfodol. Po fwyaf o bobl sydd yn cymryd rhan, po fwyaf defnyddiol y bydd y data.

Yn naturiol bydd eich data yn parhau'n eiddo i chi, ac mi fyddwn yn ceisio adrodd yn ôl i chi mor fuan ag sy'n bosib ar yr holl ganlyniadau yn ystod y tymor (a galwadau eraill yn caniatáu).

Nid yw'n amcan o gwbl i weld pwy sydd wedi darganfod y gwyfynod prinaf, na chwaith pwy sydd berchen ar yr ardd orau! Mae pob safle yn ddefnyddiol, ni waeth faint o rywogaethau yr ydych yn eu cofnodi. Os hoffech gymryd rhan yn GMSCymru cysylltwch â Norman Lowe, Cydlynnydd GMS Cymru yma: norman@enviro-consulting.com.

I ddarganfod mwy am GMS dros y DG ewch i'r wefan
<http://www.gardenmoths.org.uk>

**The Garden Moth Scheme Cymru (sy'n rhan o gyfundrefn dros y Deyrnas Gyfunol)*

Mae Prosiect Llên Natur Cymdeithas Edward Llwyd yn cymeradwyo egwyddorion GMS Cymru ac yn gweithio i gyflwyno cymaint a phosib o'r prosiect yn y Gymraeg. Dechreuwyd eisoes gyda ffurflen gofnodi Gymraeg gydag enwau safonol Cymraeg y gwyfynod fel yr uymddangosant ar wefan Llên Natur (Geiriadur Enwau a Thermau) ac yn nhrydedd cyfrol Cymdeithas Edward Llwyd yn Cyfres Enwau Creaduriaid a Phlanhigion, sef Gwyfynod a Glöynnod Byw 2007 Gwerthfawrogn air oddiwrtych trwy "Cysylltwch" ar wefan Llên Natur os ydych yn penderfynnu ymuno â GMS Cymru.